# SL(6)555 – Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau sy'n cywiro gwallau, neu'n egluro darpariaeth a wnaed, yn y tri offeryn a ganlyn sy'n rhoi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ar waith:

- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024,
- Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024,
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024.

Er enghraifft, mae'r Rheoliadau hyn:

- yn darparu eglurder drwy nodi'n union ble y dylid mewnosod rhai diwygiadau,
- yn sicrhau cysondeb rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg,
- yn gwella strwythur drafftio rhai o'r darpariaethau er mwyn darparu mwy o eglurder.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwneir y rheoliadau hyn mewn ymateb i wallau a nodwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor hwn ar yr offerynnau a ganlyn, a'r eglurhad sy'n ofynnol yn sgil yr adroddiadau hyn:

- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024,
- Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024,
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Ionawr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.